

# Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2021

Ionawr 2022

1. Cymerodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) dystiolaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar 21 Ionawr 2022.
2. Cafodd yr Offeryn Statudol hwn ei drafod gan y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 27.8A.

## Cefndir a Diben

3. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r gyfradd safonol, y gyfradd is a'r gyfradd gwarediadau anawdurdodedig ar gyfer treth gwarediadau tirlenwi a fydd yn gymwys i warediadau trethadwy a wneir ar 1 Ebrill 2022 neu wedi hynny yng Nghymru.
4. Dyma'r cyfraddau o 1 Ebrill 2022 ymlaen:
  - Y gyfradd safonol yw **£98.60** y dunnell (wedi'i chynyddu o £96.70 y dunnell)
  - Y gyfradd is yw **£3.15** y dunnell (wedi'i chynyddu o £3.10 y dunnell)
  - Y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi yw **£147.90** y dunnell (wedi'i chynyddu o £145.05 y dunnell).
5. Bydd gwarediadau trethadwy a wneir ar 1 Ebrill 2021 neu ar ôl hynny ond cyn 1 Ebrill 2022 yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r cyfraddau a ragnodwyd yn Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020.

## Gweithdrefn

6. Gweithdrefn "gwneud cadarnhaol".



7. Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Rhinweddau: craffu

8. Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Mae adran 25 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn nodi bod yn rhaid i Awdurdod Cyllid Cymru dalu symiau a gesglir wrth arfer ei swyddogaethau i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r tair cyfradd ar gyfer treth gwarediadau tirlenwi yng Nghymru.

## Amcanion polisi

9. Mae'r datganiad ysgrifenedig dyddiedig 20 Rhagfyr 2021 gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) yn nodi fel a ganlyn:

*"O 1 Ebrill 2022, rwy'n bwriadu codi cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn unol â'r chwyddiant a ragwelir (mesur y Mynegai Prisiau Manwerthu). Mae hyn yn gydnaws â chyfraddau treth tirlenwi'r DU ar gyfer 2022-23, i gefnogi amcan y polisi o leihau'r gwastraff y ceir gwared arno mewn safleoedd tirlenwi, ac i helpu i gyrraedd ein nod o fod yn genedl ddiwastraff."*

10. Mae'r cyfraddau safonol ac is arfaethedig o dreth gwarediadau tirlenwi yn gyson â chyfraddau treth tirlenwi y DU. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r rheoliadau hyn yn egluro bod hyn er mwyn darparu sefydlogrwydd a sicrwydd i'r rhanddeiliaid hynny y mae'r dreth yn effeithio arnynt.<sup>1</sup> Esboniodd y Gweinidog fel a ganlyn yn y datganiad ysgrifenedig y cyfeirir ato uchod:

*"Drwy bennu cyfraddau sy'n gyson â threth tirlenwi'r DU, bydd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn parhau i elwa ar refeniw'r dreth, gan leihau'r risg ar yr un pryd o weld gwastraff yn cael ei symud ar draws ffiniau."*

11. Mae'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi wedi'i gosod yn uwch na'r gyfradd safonol (cyfradd safonol + 150%), gan greu rhwystr ariannol ychwanegol i bobl sy'n ceisio osgoi eu rhwymedigaethau amgylcheddol, a chael gwared ar wastraff yn anghyfreithlon.<sup>2</sup>

---

<sup>1</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 4.18, (Saesneg yn unig)

<sup>2</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 4.18, (Saesneg yn unig)

## Ymateb y Llywodraeth

**12.** Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r adroddiad. Ni roddwyd ymateb.

## Barn y Pwyllgor

**13.** Nododd y Pwyllgor y Rheoliadau.